



Llangrannog i Benbryn, Ceredigion

Golygfeydd arfordirol anhygoel ar daith gerdded dros glogwyni garw i eglwys drawiadol o'r drydedd ganrif ar ddeg.

"Taith gerdded heriol gyda dringfeydd serth caled i fyny ac i lawr, ond bydd eich gwaith caled a'ch ymdrech yn cael eu gwobrwyo â golygfeydd ysbennnydd o'r clogwyni ar hyd y ffordd."

NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a gorffen:

Maes parcio Llangrannog i Benbryn.

Pellter:

2.6 milltir neu 4 km un ffordd. **Taith gerdded estynedig:** Penbryn i Dresaieth 1.6 milltir neu 2.5 km un ffordd.



Eglwys Sant Mihangel, Penbryn

© explorechurches.org



© Crown Copyright

Pentref Llangrannog

Ar hyd y ffordd...

Gan ddechrau o faes parcio Llangrannog, trowch i'r chwith a dilynwch ffordd gul (sy'n brysur yn yr haf) i'r traeth. Ewch i gyfeiriad y de i fyny'r bryn a byddwch yn ymuno â llwybr y clogwyn wrth gerflun Sant Carannog, sy'n cadw llygad cyson dros y bae. O'r pwynt hwn, gellir edmygu'r pentref arfordirol hyfryd, penrhyn ysblennydd Lochtyn yn estyn allan i'r môr, a ffurf eiconig Carreg Bica ar y blaendraeth.

Dilynwch y clogwyni ar hyd yr arfordir, mae'n llwybr garw gyda digon o ddringfeydd a disgyniadau heriol, ond mae'n werth yr holl waith caled wrth weld y golygfeydd anhygoel o draethau diarffordd a chlogwyni ysgithrog (ynghyd â'r cyfle i weld morloi, dolffiniaid ac adar y môr).

Ar ôl cyrraedd y maes parcio ym Mhenbryn, mae'r llwybr yn mynd i ganol coed Cwm Hownant - a elwir hefyd yn Gwm Lladron - dyma hen guddfan enwog y smyglwyr halen a physgotwyr penwaig.

Ar ôl croesi pont a dringo rhai grisiau, fe welwch arwydd ar gyfer yr eglwys, os trowch i'r chwith o'r prif lwybr am ychydig. Ar ôl ymweld ag eglwys Sant Mihangel, ewch yn ôl i lwybr yr arfordir.

Yma, mae gennych ddewis o ddilyn dau lwybr; gallwch naill ai barhau ar hyd llwybr yr arfordir i Dresaithe neu ddargyfeirio i lawr trwy'r dyffryn coediog i draeth Penbryn (tua 110 metr) cyn mynd yn ôl i Llangrannog.

Man Treftadaeth Gysegredig:

Yn dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg o leiaf, mae'n debyg bod eglwys Sant Mihangel wedi'i hadeiladu ar safle Cristnogol

hyd yn oed yn hŷn. Mae'n hawdd gweld beth sydd wedi denu pobl i'r fan hon. Yn eistedd ar dir uwch gyda golygfeydd godidog o'r arfordir ac ar gyrion coetir hynafol, mae lleoliad eglwys Sant Mihangel yn dal i greu argraff.

O'r tu allan mae'n strwythur carreg syml gyda tho llechi a chwt clychau amlwg arno - gyda waliau gwyngalchog sy'n sefyll allan yn glir yn erbyn awyr las Ceredigion. Ewch i mewn ac fe ddarganfyddwch loches heddychlon gyda llwyth o nodweddion hanesyddol hynod ddiddorol.

Edrychwch i fyny i weld y to o'r bymthegfed ganrif sydd wedi'i gadw'n berffaith, ac nad oes ond un arall o'i fath yn Ne Cymru (fe welwch y llall yn Eglwys y Grog Mwnt).

Mae yna hefyd 'piscina' (neu gawg) hynafol lle byddai'r offeiriad yn golchi'r llestri cymun ar ôl yr Offeren, bedyddfaen garreg o'r drydedd ganrif ar ddeg a chyfres o henebion i gyn-blwyfolion nodedig, arwydd o gysylltiad dwfn Sant Mihangel â'r gymuned leol.

Gwybodaeth ddefnyddiol:

Mae yna lefydd parcio yn Llangrannog, Penbryn a Thresaith a gellir cyrraedd y tri ar wasanaeth bysiau arfordirol tymhorol Cardi Bach.

Mae tafarndai, caffis a thoiledau cyhoeddus yn Llangrannog a chaffi tymhorol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda thoiledau cyhoeddus ym Mhenbryn.